**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**15fed Tachwedd 2010**

## OPSIYNAU'R GYLLIDEB 2011/12

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn:
- (i) rhoi diweddariadau i Aelodau ar y sefyllfa bresennol parthed cyllideb 2011/12; ac yn
- (ii) adrodd yn ôl i'r Panel Gweithredol ar gyfarfod Gweithgor Datblygu Cyllideb y Panel oedd wedi cwrdd Ddydd Gwener 8fed Hydref 2010.

## Cefndir

2 Bydd Aelodau yn ymwybodol, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU o'i Adolygiadau Gwario ar 20fed Hydref 2010, fod Llywodraeth y Cynulliad mewn safle i orffen ei gyllideb ddrafft ei hunan, sydd i'w gyhoeddi ar 17eg Tachwedd 2010, gyda'r gyllideb derfynol i'w chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar ym mis Chwefror 2011.

3 Mae'n debyg y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweld gostyngiad o 7.5% yn ei gyllideb refeniw (£1.8biliwn) a gostyngiad arall o 41% mewn arian cyfalaf dros y 4 blynedd nesaf. Er, mae wedi ei tharo'n galetach na'i chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maen nhw'n wynebau gostyngiadau tebyg o 6.8% a 6.9% mewn refeniw a 38% a 37% mewn cyfalaf.

## Gwybodaeth

4 Yn dilyn y penderfyniadau wnaed yn y Gweithgor Datblygu Cyllideb ym mis Medi, paratôdd y swyddogion gynigion a'u cyflwyno i'r Gweithgor ar 8fed Hydref 2010, gan roi opsiynau i'r Aelodau ar sut y gallan nhw ostwng cyllideb y Gwasanaeth mewn gwahanol ardaloedd dros y tair blynedd nesaf.

5 Cyflwynwyd yr holl opsiynau i'r Aelodau gyda manylion o sut fyddai'n effeithio'r Gwasanaeth, y risgiau potensial i'r gymuned ehangach ac i'r Awdurdod Tân ei hunan. Roedd hefyd yn gosod amserlen y gellir cyflawni pob arbediad a'r symiau oedd wedi eu cynnwys. Roedd unrhyw gysylltiadau rhwng opsiynau wedi eu hamlygu, oedd yn golygu nad oedd modd edrych arnynt ar eu pennau eu hunain gan eu bod yn effeithio'r opsiynau eraill gyflwynwyd.

6 Yn dilyn geiriau rhybudd y Trysorydd yn dilyn cyfarfod ym mis Medi, amlygodd y swyddogion i'r Aelodau beth oedd pob gostyngiad mewn canran yn ei olygu mewn termau arian wedi ei osod yn erbyn cyllideb refeniw o £32 miliwn. Roedd rhaid ystyried yr elfen chwyddiannol hefyd o tua £0.5miliwn oedd ei angen i ddarparu cyllideb sefydlog. Byddai toriad canran o 3% yn wir ostyngiad o 5%, sy'n gyfwerth i £1.5 miliwn. I roi hyn yn ei gyd-destun, dyma gost naw gorsaf ar y system ddyletswydd ran amser. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn parhau i ddilyn cyngor blaenorol ac yn defnyddio tybiaethau llywodraeth leol o doriadau 3% y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

7 Fe amlygodd y swyddogion i'r Aelodau na ddylid torri staff cefnogi cyn ystyried yr opsiynau rheng flaen, ond y dylid eu gostwng mewn cyfrannedd i'r gwasanaeth craidd maen nhw'n darparu ar ei gyfer.

8 Adolygodd aelodau o'r Gweithgor yr opsiynau a gyflwynwyd iddynt a gofynnwyd am ragor o fanylion ar bob opsiwn.

9 Ar hyn o bryd, mae swyddogion wrthi'n datblygu llyfryn 'Opsiynau Gostwng Cyllideb' i bob Aelod gael ei adolygu cyn yr Awdurdod Tân Arbennig ar 10fed Rhagfyr 2010. Bydd y llyfr hwn yn cynnwys

yr holl opsiynau a gyflwynwyd i'r Gweithgor Datblygu Cyllideb ac ychydig o opsiynau ychwanegol i'w hystyried.

**Argymhelliad**

10 Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac y bydd llyfr Opsiynau Gostwng y Gyllideb ar gael iddynt cyn Cyfarfod Arbennig y Gyllideb ym mis Rhagfyr.